

Croeso cynnes gan y DBS

Mae'n bleser i mi gael eich croesawu i'n rhifyn cyntaf o Newyddion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae gennym enw newydd a dulliau newydd o ddisgrifio'r hyn a wnawn; ond mae ein gwasanaeth i chi a'n manylion cyswllt yn dal i fod yr un fath. Bu ein trosiant i'r DBS yn llwyddiannus iawn, ac rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth yn fawr. Ni fyddai wedi bod yn bosibl heb eich cymorth chi. Mae rhan olaf y trosiant yn digwydd ar 31 Mawrth 2013, pan fyddwn yn derbyn ffurflenni cais y DBS yn unig – felly gwnewch nodyn yn eich dyddiadur.

Bydd eich cefnogaeth wir yn ein helpu i gael y neges gywir i bawb sy'n defnyddio ac angen ein gwasanaeth, felly os oes yna unrhyw beth o gwbl y byddwch ei angen, rhowch wybod i ni yn customerservices@dbs.gsi.gov.uk.

Dymuniadau gorau

Adrienne Kelbie
Prif Weithredwr

Cofrestrwch nawr i gael yr wybodaeth ddiweddaraf

Rydym eisiau rhoi gwybod i chi am newidiadau cyn neb arall, felly os gwelwch yn dda cofrestrwch eich manylion ar-lein yn www.homeoffice.gov.uk/dbs, ble gallwch roi gwybod i ni ym mha sector ydych chi'n gweithio ac yn beth y mae gennych ddiddordeb mewn dysgu amdano.

Bydd gennym lawer i'w ddweud wrthych, yn cynnwys y Gwasanaeth diweddarau sydd ar ddod, felly cofrestrwch eich diddordeb cyn gynted â phosibl.

Cais am rifau tystysgrif

Rydym wedi nodi tuedd newydd sy'n peri gofid, sef bod llawer mwy ohonoch nawr yn gofyn am gyfeirnodau tystysgrifau a gyhoeddwyd yn flaenorol.

Mae cwsmeriaid wedi dweud wrthym fod sefydliadau yn gofyn iddynt ddarparu eu rhifau tystysgrif wrth iddynt ymgeisio am swyddi.

Byddwn yn ystyried pob cais o'r fath, ond mae'n achos pryder i ni gan na fydd rhif tystysgrif ynddo'i hun yn rhoi gwybod i chi:

- y lefel neu fath o wiriad a gyflawnwyd;
- os datgelwyd unrhyw wybodaeth, megis euogfarnau neu wybodaeth nad yw'n ymwneud ag euogfarn;
- os yw'r unigolyn wedi ei wahardd rhag gweithio gyda grwpiau bregus; neu
- pryd y cyhoeddwyd y dystysgrif.

Os ydych eisiau aildefnyddio tystysgrif a gyhoeddwyd, rhaid i chi weld y dystysgrif ei hun – nid dim ond dibynnu ar wybodaeth y cafodd ei chyhoeddi.

Cofiwch mai dim ond i'ch helpu i wneud asesiad o addasrwydd yr unigolyn ar gyfer y swydd yr hoffech ei llenwi y dylid defnyddio'r wybodaeth sydd wedi ei rhyddhau ar dystysgrif DBS. Felly helpwch ni i amlygu'r risgiau a phryderon o ddibynnu ar rif tystysgrif yn unig os byddwch yn sylwi ar yr arfer hwn gyda chwsmeriaid neu sefydliadau eraill.

Oriau agor dros y Nadolig (Swyddfa Lerpwl)

Noder mai ar gyfer **Swyddfa Lerpwl** yn unig y mae'r amserau hyn.

- Noswyl Nadolig – 08:00 – 17:00
- Dydd Nadolig – ar gau
- Dydd San Steffan – ar gau
- Dydd Iau 27 Rhagfyr – 08:00 – 18:00
- Dydd Gwener 28 Rhagfyr – 08:00 – 18:00
- Dydd Sadwrn 29 Rhagfyr – 10:00 – 17:00
- Dydd Sul 30 Rhagfyr – ar gau
- Nos Galan – 08:00– 17:00
- Dydd Calan – ar gau
- Dydd Mercher 2 Ionawr – 08:00 – 18:00

Oriau agor dros y Nadolig (Swyddfa Darlington)

Noder mai ar gyfer **Swyddfa Darlington** yn unig y mae'r amserau hyn.

- Noswyl Nadolig – ar gau
- Dydd Nadolig – ar gau
- Dydd San Steffan – ar gau
- Dydd Iau 27 Rhagfyr – 08:30 – 17:00
- Dydd Gwener 28 Rhagfyr – 08:30 – 17:00
- Dydd Sadwrn 29 Rhagfyr – ar gau
- Dydd Sul 30 Rhagfyr – ar gau
- Nos Galan – 08:30– 15:00
- Dydd Calan – ar gau
- Dydd Mercher 2 Ionawr – 08:30 – 17:30

Diolch gan ein tîm dysgu

Mae ein tîm Hyfforddiant wedi gweithio'n agos gyda nifer ohonoch dros ddwy flynedd; i'ch helpu i ddeall deddfwriaeth berthnasol ac i gael y gorau o'n gwasanaeth.

Mae ein digwyddiadau hyfforddi undydd wedi bod yn boblogaidd iawn, yn arbennig y darnau oedd yn delio â newidiadau megis y broses gwirio hunaniaeth newydd, a'r diffiniad newydd o Weithgaredd Reoledig.

Gan ein bod eisiau cadw ein ffioedd yn isel, rydym wir wedi gwerthfawrogi'r lleoliadau y mae rhai ohonoch wedi eu rhoi i ni yn rhad ac am ddim. Diolch enfawr i bawb oedd yn

gysylltiedig â chynnal a hwyluso ein digwyddiadau hyfforddi; yn arbennig ein cefnogwyr mynych.

Roedd y digwyddiadau hyfforddi wedi eu hanelu yn wreiddiol at Gydlodnodwyr newydd. Fodd bynnag, daeth yn amlwg o'r cychwyn fod nifer ohonoch sydd wedi bod yn Gydlodnodwyr ers peth amser hefyd eisiau deall mwy.

Ein ffocws ar bob adeg fu i sicrhau fod ffurflen gais y DBS yn cael ei chwblhau'n gywir – y tro cyntaf! I'r rhan fwyaf o'r mynychwyr, mae'r hyfforddiant wedi helpu lleihau gwallau o fwy na 50%. Mae hyn yn helpu pob un ohonom ac yn golygu y gallwn brosesu'r ffurflen cyn gynted ag y byddwn yn ei derbyn.

Mae'ch adborth o'r digwyddiadau hyn wedi helpu llunio cynnwys presennol ein cyrsiau. Dywedodd dros 98% o'r mynychwyr y byddent yn argymhell y cwrs hyfforddi i gydweithiwr.

Dywedodd y Rheolwr Hyfforddi, Dave Nield: 'Mae gennym nifer sylweddol yn fwy o gynigion lleoliadau nag y gallwn eu derbyn, sy'n beth da. Fodd bynnag, mae rhai sefydliadau wedi eu siomi, ac yn y misoedd i ddod rydym yn gobeithio gweithio gyda nifer o sefydliadau newydd. Rydym hefyd eisiau archwilio ffrydiau cyfathrebu newydd a fydd yn gwella eich profiad o weithio gyda ni ymhellach.'

Ar gyfer amserlen y tîm, hyd at ddiwedd Mawrth 2013, trowch at ein gwefan www.homeoffice.gov.uk/dbs a chwilio am csig-training.

Helpwch ni i leihau gwallau ar ffurflenni

Rydym yn monitro gwallau ffurflenni cais DBS er mwyn dileu oedi i'n gwasanaeth a chostau i bob un ohonom. Rydym yn dibynnu arnoch chi i'n helpu i leihau gwallau ymhellach.

Ers Ionawr 2012, o'r 360,000 o wallau, roedd 27,000 o wallau yn ymwneud â cheisiadau gwirfoddol. Gallwn leihau hyn os ydych yn ystyried yn ofalus:

- Bod y swydd y gwneir cais amdani yn bodloni meini prawf gwirfoddolwr fel y diffiniwyd gan y DBS: 'Rhywun sy'n gwneud unrhyw weithgaredd sy'n cynnwys treulio amser, heb daliad (heblaw am dreuliau teithio a threuliau cymeradwy y mae'n rhaid iddo/iddi dalu amdanynt o'i boced/phoced ei hun), yn gwneud rhywbeth â'r bwriad o fod o fudd i bobl (unigolion neu grwpiau) yn hytrach nag, neu'n ogystal ag i berthnasau agos.'
- Bod y swydd yn gymwys am wiriad DBS
- Yn x61 rydych yn disgrifio beth yw'r swydd – peidiwch â defnyddio'r gair 'gwirfoddolwr' yn unig gan y bydd y ffurflen yn cael ei gwrthod.
- Rydych yn rhoi croes (X) ar gyfer y blwch 'Ydi' yn adran x68 y ffurflen gais i ddynodi ei fod ar gyfer gwiriad gwirfoddolwr.

Byddwn angen gwrthod a dychwelyd y ffurflen os:

- Yw'r ddau flwch yn adran x68 wedi eu cwblhau

- Mae'r blwch x68 yn wag pan fydd y blwch x61 wedi ei gwblhau fel swydd wirfoddol
- Mae'r cais wedi ei gyflwyno ar gyfer gwirfoddolwr ac fe roddir croes (X) yn y blwch 'ydi', ond derbynnir taliad hefyd.

Helpwch ni i gadw amserau prosesu a chostau yn isel trwy wirio ffurflenni cais yn drylwyr i sicrhau y ticiwyd y blychau cywir.

Olion bysedd – mesur pan fetho popeth arall yn unig

Pob tro y byddwch yn gweld ffurflen gais gyda 'Na' yn w59, gofynnwch yn benodol i'r gwiriwr hunaniaeth os yw 'Na' wir yn golygu 'Na'. Yn ystod y tri mis diwethaf, mewn 25% o'r achosion, byddem wedi gallu gwirio hunaniaeth yr ymgeisydd heb fod angen olion bysedd.

Rydym yn deall y gall fod adegau pan fydd angen i'r ymgeisydd fynd i gael cymryd ei olion bysedd i wirio ei hunaniaeth, ond rhaid i hyn fod yn fesur pan fetho popeth arall pob tro. I'r unigolyn, nid yw'n brofiad dymunol ac i bawb ohonom mae'n ychwanegu costau ac oedi. Felly er mwyn osgoi hyn, rhaid i chi ddisbyddu'r tri llwybr gwirio hunaniaeth yn gyntaf, a chynnal trafodaeth ddwys cyn y gallwch ddynodi ar y ffurflen gais yn adran w59 na allech ddilysu eu hunaniaeth.

Mae gan www.homeoffice.gov.uk/dbs wybodaeth ar ganllawiau gwirio hunaniaeth.

Atgyfeiriadau Atal

Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn gyfrifol am ystyried atgyfeiriadau o'r fath, ac yn y pen draw am wahardd unigolion rhag gweithio mewn Gweithgaredd Reoledig gyda grwpiau bregus, yn cynnwys plant.

Mae yna orfodaeth gyfreithiol ar holl ddarparwyr a chyflenwyr personél Gweithgareddau Rheoledig i gysylltu â ni os oes ganddynt unrhyw bryderon ynglŷn â rhywun yn eich sefydliad. Dylai awdurdodau lleol, ceidwaid cofrestrau ac awdurdodau goruchwylio hefyd gysylltu â ni os oes ganddynt bryderon tebyg.

Os ydych yn credu fod rhywun wedi achosi niwed neu y gallai gyflwyno risg o niwed i grwpiau bregus, yn cynnwys plant, mae angen i chi gysylltu â ni.

I gyfeirio rhywun, defnyddiwch ein ffurflen gyfeirio yn www.homeoffice.gov.uk/dbs

Rhowch gymaint o fanylion â phosibl ar y ffurflen ac anfon unrhyw wybodaeth berthnasol, megis ymchwiliadau disgyblu neu gofnodion cyfarfodydd.

Y broses o wneud penderfyniadau

Mae ein proses o wneud penderfyniadau yn broses pum cam:

1. Asesiad cychwynnol – i bennu a ddylem fod yn edrych ar yr achos hwn
2. Casglu gwybodaeth ac asesu – rydym yn edrych ar y ffeithiau; efallai y byddwn yn chwilio am wybodaeth ac, yn ystod y cam hwn, rydym yn penderfynu yn wedi pwyso a mesur tebygolrwydd, a yw niwed neu risg o niwed wedi digwydd
3. Proses arfarnu strwythuredig – rydym yn gweithredu offeryn dadansoddiad risg i'r wybodaeth a thystiolaeth a gasglwyd
4. Sylwadau – rydym yn ysgrifennu at yr unigolyn dan sylw i'w hysbysu ein bod 'â gogwydd i wahardd' ac yn gofyn iddynt ddarparu sylwadau a thystiolaeth
5. Penderfyniad gwahardd – os na dderbynnir unrhyw sylwadau, bydd yr unigolyn dan sylw yn cael ei wahardd. Os derbynnir sylwadau, mae'r achos yn cael ei ailasesu a gwneir penderfyniad terfynol

Mae'r penderfyniadau a wneir gan y DBS yn amodol i archwiliad ac adolygiad rheolaidd i sicrhau bod pob penderfyniad yn deg, trylwyr a thryloyw. Gellir symud achosion i fyny at lefel uwch reolwyr ar gyfer ystyriaeth bellach, gyda'r achosion mwyaf cymhleth yn cael eu symud i fyny i lefel Bwrdd. Mae Bwrdd y DBS yn cynnwys nifer o benodedigion cyhoeddus sy'n arbenigwyr yn y maes o ddiogelu.

Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan y DBS yn www.homeoffice.gov.uk/dbs neu ffoniwch ein llinell gymorth at 01325 953 795.

Tystysgrifau a ffurflenni cais DBS

Yn ein dyddiau cyntaf fel y DBS, rydym wedi cyhoeddi dros 35,000 o dystysgrifau DBS. Maent yn cario ein logo newydd a manylion cyswllt wedi eu diweddarau, ond ar wahân i hynny, nid yw'r fformat wedi newid.

Rydym angen eich cymorth i sicrhau fod ymgeiswyr yn ymwybodol y byddant yn derbyn tystysgrif DBS – hyd yn oed os defnyddiwyd ffurflen gais y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) – ac nad oes rheswm i boeni.

Rydym hefyd yn gofyn i chi ddefnyddio eich stoc o ffurflenni cais Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) ac i gadw at eich patrymau archebu rheolaidd. Bydd ffurflenni cais brand y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) yn dal i gael eu derbyn tan 28 Chwefror 2013; felly mae digon o amser i'w hanfon atom o hyd.

Os ydych yn rheoli eich archebion ar gyfer ffurflenni DBS yn llwyddiannus, ac yn defnyddio eich stoc o ffurflenni cais Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB), byddwch yn ein helpu i osgoi oedi a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd o wastraffu deunydd wedi argraffu.

Ailargraffu Tystysgrifau: cyngor i ymgeiswyr

Bydd ailargraffiadau o dystysgrifau yn dal i fod ar gael dan yr un amodau ag o'r blaen.

Gellir cyhoeddi'r rhain o fewn 93 niwrnod i ddyddiad cyhoeddi fel y mae ar dystysgrif.

Rydym angen i chi gynghori ymgeiswyr sy'n gofyn am ailargraffiadau y byddant yn derbyn fersiwn brand y DBS.

Dyddiadau allweddol – nodyn i'ch atgoffa

- Daliwch i ddefnyddio'ch stoc o ffurflenni cais Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) tan 28 Chwefror 2013
- O 1 Rhagfyr bydd yr holl wiriadau a gwblheir yn derbyn tystysgrifau DBS
- Dim ond ffurflenni cais DBS fydd yn cael eu prosesu o 1 Mawrth 2013